‘A yw Prydain yn Decach?’ Ffeithiau a chanfyddiadau allweddol: **pobl drawsryweddol**

A yw Prydain yn Decach? ‘ (2015) yw adolygiad pum-mlynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ym Mhrydain. Mae’r daflen ffeithiau hon yn dirnad rhai o’n canfyddiadau allweddol ni ar bobl drawsryweddol.

Mae ailbennu rhywedd yn nodwedd warchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae’r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth; mae’n diogelu unigolion rhag triniaeth annheg; ac yn hyrwyddo cymdeithas decach a mwy cyfartal. Mae’n diogelu pobl drawsryweddol rhag gwahaniaethu mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys cyflogaeth, addysg, gweithgarwch cyhoeddus a darparu gwasanaethau.

Mae’r dystiolaeth ar brofiad pobl drawsryweddol yn gyfyngedig, ac mae’r rhan fwyaf o ganfyddiadau yn deillio o astudiaethau ansoddol ar raddfa fach (ac nid o arolwg cenedlaethol neu setiau data gweinyddol). Lle mae data, er enghraifft ym maes iechyd, mae’r ymatebwyr yn aml yn hunanddewis, sy’n golygu na all y canfyddiadau gael eu hystyried i fod yn gynrychioliadol o’r grŵp yn ei gyfanrwydd.

Mae pobl drawsrywiol yn wynebu rhwystrau a gwahaniaethu wrth geisio defnyddio gwasanaethau gofal iechyd

Mae pobl drawsryweddol wedi profi amrywiaeth o rwystrau wrth gyrchu gwasanaethau ailbennu rhywedd, GIG, o atgyfeirio gan feddygon teulu i gyllid gan Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol a thriniaeth gan glinigwyr.

Mae hyn er gwaethaf i’r Adran Iechyd gynhyrchu canllawiau ar ofal iechyd a’r ffaith fod dysfforia rhyw yn dod o dan adain gwaith gwasanaethau gofal iechyd y GIG. Mae tystiolaeth o Loegr yn awgrymu problemau pellach, gan gynnwys diffyg gwybodaeth ar ran meddygon teulu ar atgyfeirio cleifion at wasanaethau hunaniaeth rhyw neu, ar eu gwaethaf, feddygon teulu yn rhwystrol a gwahaniaethol.



Mae profiadau o wahaniaethu yn y sector iechyd yn cynnwys diagnosis amhriodol, gwrthod triniaeth, cywilyddio, a statws trawsrywiol yn cael ei godi wrth geisio triniaeth ar gyfer pryderon iechyd hollol amherthnasol. Mae’r un olaf wedi cael ei ddisgrifio fel ‘syndrom traws oer’ lle mae clinigwr yn gweld hanes rhyw yn bwysicach na’r gŵyn feddygol a gyflwynir.

Canfu astudiaeth Lles Emosiynol ac Iechyd Meddyliol pobl Draws yn y DU ac Iwerddon yn 2012 fod 88% o’r sampl (hunan-ddewisol) eu bod naill ai’n dioddef o iselder ar y pryd, neu wedi profi iselder yn flaenorol. Roedd lefelau is yn amlwg gyda’r rhai oedd yn cael, neu sydd wedi, mynd drwy broses o drawsnewid neu ailbennu rhywedd. Yn ychwanegol, roedd 53% o’r cyfranogwyr wedi hunan-niweidio rywbryd, a 11% yn hunan-niweidio yn gyfredol.

Canfu astudiaeth o 382 o bobl drawsryweddol yn y DU ac Iwerddon fod 62% o bobl drawsrywiol, hyd yn oed o fewn clinigau hunaniaeth o ran rhywioldeb, wedi profi cwestiynau, agweddau neu wasanaethau negyddol.

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Canfu un astudiaeth fod **63%** o'r ymatebwyr a oedd yn defnyddio gwasanaethau iechyd meddyliol wedi derbyn cwestiynau, agweddau neu weithredoedd negyddol ac efallai na fyddai **26%** ohonynt yn barod i ddefnyddio gwasanaethau o'r fath eto yn y dyfodol.

Yn dilyn arolwg o broblemau gyda gwasanaethau gofal iechyd, cafodd coflen o achosion (am honiadau o dramgwyddau, triniaeth amhriodol, triniaeth a wrthodwyd, a gweithredu yn erbyn lles y claf) yn gwarantu archwiliad pellach ei chyflwyno i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn 2013.

Nid yw gwahaniaethu traws-ffobig wedi ei gyfyngu i ofal iechyd: mae'n digwydd mewn lleoliadau eraill hefyd.

Yng Nghymru a Lloegr, cofnodwyd 44,480 o droseddau casineb gan yr heddlu yn 2013/14. O'r 44,480 o droseddau a gofnodwyd, roedd 555 ohonynt yn droseddau yn erbyn hunaniaeth drawsryweddol. Yn yr Alban roedd 5,804 o droseddau casineb, a 25 ohonynt yn erbyn hunaniaeth drawsryweddol.

Roedd unigolion trawsryweddol yng Nghymru yn wynebu problemau mewn canfod a chadw cyflogaeth, yn enwedig, fel y canfu astudiaeth yn 2012, os yw eu hunaniaeth o ran rhywioldeb yn cael ei ganfod neu os ydynt yn 'amrywiad amlwg rhwng y ddau ryw'.

LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU LLINELL HEDDLU

Mae arolwg y DU o bobl drawsryweddol a gynhaliwyd yn 2012 yn dangos fod ymatebwyr yn osgoi rhai gweithgareddau oherwydd ofni cael eu haflonyddu neu eu nodi'n drawsryweddol. Dywedodd llawer eu bod yn osgoi toiledau cyhoeddus a champfeydd, ac oddeutu chwarter yn dweud eu bod yn osgoi siopau dillad, cyfleusterau hamdden, clybiau neu grwpiau cymdeithasol, trafnidiaeth gyhoeddus, teithio dramor, bwytai neu dafarndai. Roedd y rhai sydd â hunaniaeth rywiol glir fel dynion yn osgoi llawer mwy o sefyllfaoedd na'r rhai sydd â hunaniaeth glir fel merched. Roedd hyn yn arbennig o wir yn achos toiledau cyhoeddus, gyda 77% o ddynion trawsryweddol yn eu hosgoi.



Dangosodd arolwg 2012 yr Asiantaeth Hawliau Sylfaenol ar lesbiaid a phobl hoyw, ddeurywiol a thrawsryweddol fod, yn y deuddeg mis cyn yr arolwg, oddeutu dau draean o ymatebwyr trawsryweddol yn y DU wedi dioddef gwahaniaethu neu aflonyddu personol oherwydd cael eu canfod yn bobl drawsryweddol.

Mae'r Llywodraeth yn dyrannu cyllid i fynd i'r afael â bwlio traws-ffobig.

Mae cymorth ariannol ar gael i fudiadau elusennol i weithio mewn ysgolion i atal bwlio homoffobig, deuffobig a thraws-ffobig ar ffurf cronfa £2M, a weinyddir gan Swyddfa Cydraddoldeb y Llywodraeth.



Er bod amryw o ysgolion yn darparu hyfforddiant ar sut i ddelio â bwlio, nid yw hyn yn aml yn gwneud cyfeiriad penodol at ddelio â bwlio ar sail ailbennu rhywedd.